**Leighton Andrews AC / AM**
**Y Gweinidog Addysg a Sgiliau**
**Minister for Education and Skills**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref MB/LA/2025/12

24 Mai 2012

Annwyl Aelodau Cabinet Addysg,

Llongyfarchiadau mawr i'r rhai hynny ohonoch chi sy'n newydd i'ch swydd ac i'r rhai hynny ohonoch chi sy'n dychwelyd i'ch swydd. Rwy'n croesawu'r cyfle i weithio gyda chi yn y dyfodol.

Mae llywodraeth leol a Llywodraeth Cymru yn bartneriaeth ac mae'n rhaid i atebolrwydd agored fod yn un o'i phrif hanfodion. Fe wyddoch fod addysg, a gwella safonau ysgolion yn benodol, yn flaenoriaeth ganolog i'r Llywodraeth hon ac edrychaf ymlaen at weithio gyda chi i gyflawni'r agenda hon. Mae Llywodraeth Cymru wedi diogelu'r gwariant ar ysgolion gan wireddu ymrwymiad y Prif Weinidog ein bod yn gwario 1% yn fwy y flwyddyn na'r hyn ry'n ni'n ei dderbyn o'r grant bloc gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig. Yn yr oes sydd ohoni, gyda'r cwtogi ar gyllidebau, fe sylweddolwch ein bod o ddifrif yn ein hymrwymiad i gefnogi ein huchelgais ar y cyd ar ran plant a phobl ifanc Cymru.

Gwn na fyddwch yn gwastraffu dim amser wrth fynd ati i adolygu'r cynlluniau ar gyfer y ddarpariaeth addysg o fewn eich awdurdod at y dyfodol. Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn yn awr felly i godi nifer o faterion lle mae angen gweithredu yn eu cylch ar fyrder a lle byddai dod i benderfyniad buan o fudd i ddysgwyr yn eich awdurdod. Fel y gwyddoch, cyhoeddodd Estyn adroddiad ar leoedd gwag ar 8 Mai. Ar hyn o bryd mae nifer y lleoedd gwag sydd yn bodoli ledled Cymru yn uwch na'r hyn sydd ei angen a chanlyniad hynny yw bod mwy fyth o bwysau ar adnoddau allai gael eu defnyddio'n well i wella ansawdd addysg i bob dysgwr. Fel y dywedais o'r blaen, mae pob lle gwag yn dreth ar bob un dysgwr sydd eisoes yn y system. Er bod Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac awdurdodau unigol yn cefnogi'r farn hon ychydig a wnaed i fynd i'r afael â hyn dros y blynyddoedd diwethaf.

Mae dros 20% o leoedd gwag mewn ysgolion cynradd mewn 10 awdurdod lleol ar hyn o bryd ac mae lefelau cyfatebol o leoedd gwag mewn ysgolion uwchradd mewn 6 awdurdod lleol. Mae hyn yn wastraff mawr ar adnoddau ac mae'n awgrymu mai ychydig o sylw a roddwyd i'r Canllawiau gan Lywodraeth Cymru y dylai awdurdodau lleol anelu at gadw dim mwy nag uchafswm o 10% o leoedd gwag.

Yn ôl gwybodaeth a roddwyd i'm hadran i ynghylch capasiti a'r niferoedd sydd ar y gofrestr, ynghyd â'r amcanestyniadau hyd at 2016, gwelir ei bod hi'n debygol y bydd y sefyllfa'n gwaethygu ym mhob awdurdod lleol o ran cyfran y lleoedd gwag mewn ysgolion uwchradd. Er y disgwylir y bydd pob awdurdod lleol yn gweld llai o leoedd gwag mewn ysgolion

cynradd erbyn y dyddiad hwnnw o ganlyniad i gynnydd yn nifer y genedigaethau, bydd y gwelliant, i rai, yn fach iawn. Nid yw'r amcanestyniadau sydd wedi'u hamgáu yn y llythyr hwn yn ystyried y cynigion statudol ar gyfer ad-drefnu ysgolion y cytunwyd arnynt eisoes, na'r rhai sydd yn yr arfaeth. Maent yn ddarlun o'r sefyllfa fydd yn ein hwynebu os na chaiff camau eu cymryd i waredu lleoedd gwag erbyn 2016.

Dyma nodi felly fy nisgwyliadau clir bod yn rhaid gweithredu nawr er mwyn osgoi gormodedd o leoedd gwag ac er mwyn gwella'r cydbwysedd rhwng y galw a'r cyflenwad yn gyffredinol. Gwn, wrth gwrs, fod yna nifer o awdurdodau lleol sydd eisoes yn gweithredu neu'n trafod opsiynau a fydd yn dylanwadu ar y sefyllfa hon.

Gofynnaf felly i'r awdurdodau lleol hynny sydd â mwy na 20% o leoedd gwag, yn y naill sector neu'r llall, neu y rhagwelir y bydd ganddynt fwy na 20% o leoedd gwag erbyn 2016, fynd ati i lunio datganiadau yn nodi pa gynlluniau sydd ganddynt o dan drafodaeth, neu sydd eisoes ar y gweill ganddynt, i leihau lefel y lleoedd gwag **yn is na 15% erbyn mis Ionawr 2015**, a thrwy hynny felly osgoi'r sefyllfaoedd a ragwelir ar gyfer mis Ionawr 2016. Hoffwn gael sicrwydd gan yr 16 awdurdod lleol sydd y categori hwn y caiff hyn ei gyflawni neu, os nad yw hynny'n bosibl, weld targed graddedig yn cael ei osod er mwyn sicrhau y caiff hyn ei gyflawni erbyn yr amser hwnnw. Nid oes raid i'r datganiadau gyfeirio at ysgolion penodol ond dylid cyfeirio at ardaloedd o fewn yr awdurdod lleol. Dylid cyflwyno'r wybodaeth ar gyfer y sector cynradd a'r sector uwchradd ar wahân. Gall y datganiadau gyfeirio at brosiectau lle cytunwyd eisoes ar gyllid gan Lywodraeth Cymru mewn egwyddor ond dydw i ddim yn disgwyl gweld ailgyflwyno ceisiadau am gyllid ar gyfer ysgolion ar gyfer yr 21ain ganrif am nad yw'r rhain i'w cyllido o fewn yr amserlen berthnasol.

Gofynnaf i weddill yr awdurdodau lleol gyflwyno datganiad yn nodi sut y caiff lleoedd mewn ysgolion eu rheoli hyd at fis Ionawr 2015 ynghyd ag amcangyfrif o lefelau'r lleoedd gwag a fydd ym mhob sector ar yr adeg honno. Disgwyliaf weld gwelliant gan yr awdurdodau lleol hynny sydd â mwy na 10% o leoedd gwag yn y naill sector neu'r llall, a sicrwydd gan y rheini sydd â lefelau is o leoedd gwag y bydd y ddarpariaeth yn ddigonol ac yn effeithlon rhwng nawr a 2015. **Dylai'r datganiadau hyn gael eu cyflwyno erbyn 29 Mehefin i Mary Davies, yr Is-adran Rheolaeth ac Effeithiolrwydd Ysgolion.**

Fe wyddoch chi ein bod wedi cyflwyno deddfwriaeth drwy Gynulliad Cenedlaethol Cymru a fyddai'n rhoi i awdurdodau lleol fframwaith mwy effeithlon ar gyfer trefniadaeth ysgolion. Mae'r Bil hefyd yn cynnwys pwerau i leihau capasiti mewn rhai ysgolion sy'n llawn neu bron â bod yn llawn sydd hefyd â'r potensial i sicrhau bod disgyblion yn cael eu dosbarthu i ysgolion eraill o fewn ardal benodol. Rhagwelaf ar hyn o bryd y bydd y pwerau, os cânt eu deddfu, mewn grym erbyn mis Medi 2013.

Mae a wnelo'r ail fater y mae angen penderfyniad buan yn ei gylch â dalgylchoedd. Mae poblogaeth ysgolion cynradd yn dechrau cynyddu mewn nifer o ardaloedd. O ganlyniad i hynny, mae cyfle i nifer o awdurdodau lleol, drwy gymryd camau pendant, leihau'n sylweddol gyfran y lleoedd gwag mewn ysgolion cynradd fel y bydd y cyflenwad o leoedd sydd ar gael yn cyfateb yn agos â'r galw, gan ganiatáu hefyd am y twf rhagamcanol ym mhoblogaeth disgyblion mewn ardaloedd lle mae hyn yn debygol. Hoffwn weld pob awdurdod lleol lle mae cynnydd yn y galw yn sicrhau bod y ddarpariaeth sydd ar gael **ar hyn o bryd** mewn ysgolion yn cael ei defnyddio yn y modd gorau posibl cyn ystyried sefydlu ysgolion newydd neu ymestyn ysgolion poblogaidd. Gallai newid dalgylchoedd ysgolion fod yn fater i'w drafod yn hyn o beth, cyn belled na fyddai hynny, yn ei dro, yn arwain at gostau cludo ychwanegol nad oes modd eu cynnal. Bydd angen cymryd camau yn y flwyddyn benderfynu 2012/13 a fydd yn dechrau ym mis Medi 2012 ac yn dod i ben pan benderfynir ar y trefniadau newydd ar gyfer derbyniadau ar 15 Ebrill 2013 fan hwyraf. Gall camau gweithredu o'r fath, y dylid ymgynghori â rhieni yn eu cylch, arwain at newid dalgylchoedd neu sefydlu dalgylchoedd all helpu i reoli derbyniadau i ysgolion ar gyfer mis Medi 2014.

Rwyf am weld gostyngiad yn nifer yr ysgolion lle bo mwy o alw na'r nifer o leoedd sydd ar gael. Gallai hyn arwain at gynyddu nifer y disgyblion sy'n cael eu derbyn i ysgolion lle mae lleoedd gwag.

Bydd y boblogaeth mewn ysgolion uwchradd yn parhau i ostwng am nifer o flynyddoedd cyn dechrau cynyddu eto yn y ddegawd nesaf. Disgwyliaf i awdurdodau lleol ddefnyddio'r seibiant hwn i sicrhau bod ganddynt y patrwm gorau posibl o ysgolion uwchradd i gyflwyno, mewn partneriaeth â darparwyr eraill, yr addysg a'r hyfforddiant o'r safon orau sydd eu hangen ar ddysgwyr.

Lle nad yw ad-drefnu yn gam ymarferol na realistig yn economaidd, disgwyliaf i awdurdodau lleol ddefnyddio'r capasiti sy'n cael ei greu gan y lleoedd gwag yn y sector cynradd neu'r sector uwchradd at ddibenion eraill a fydd yn sicrhau bod y gwasanaeth addysg yn fwy effeithiol ac effeithlon neu'n cyfrannu at ddeilliannau tebyg yn achos gwasanaethau cyhoeddus eraill. Mae fy swyddogion yn gweithio gyda rhanddeiliaid ar ganllaw i ddefnyddio lleoedd gwag a fydd yn ddefnyddiol i chi yn hyn o beth.

Gofynnwyd i awdurdodau lleol greu proffil o'r gostyngiad yn nifer y lleoedd gwag a fyddai'n deillio o'u cynlluniau o dan y rhaglen adeiladau ysgolion ar gyfer y 21ain ganrif. Ni fydd y gwaith o fuddsoddi yn y brif raglen yn dechrau tan 2014 ond gofynnaf i awdurdodau lleol gymryd camau rhag blaen er mwyn lleihau nifer y lleoedd gwag lle na fydd angen buddsoddiad sylweddol i'w rhoi ar waith ond a fydd yn dangos eu bod yn defnyddio eu hadnoddau mewn modd darbodus a chreadigol.

Mae'r trydydd maes yn ymwneud â chynllunio addysg cyfrwng Cymraeg mewn modd effeithiol. Rydym yn cyflwyno deddfwriaeth i sicrhau y bydd Cynlluniau Cymraeg mewn Addysg yn statudol o hyn ymlaen. Disgwyliwn i awdurdodau lleol asesu'n ofalus ac yn gywir y galw o du rhieni am leoedd cyfrwng Cymraeg. Dylai cynlluniau ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg gael eu llunio'n naturiol ochr yn ochr â'r cynlluniau i adolygu lleoedd gwag a dalgylchoedd. Byddwn yn disgwyl i awdurdodau lleol roi'r ystyriaeth sy'n ddyledus i'r mater hwn cyn y ddeddfwriaeth sydd wedi'i chyflwyno.

Yn bedwerydd, fe wyddoch am yr ymrwymiadau a wnaed gan awdurdodau lleol i ddirprwyo 80% o gyllid addysg i ysgolion erbyn mis Medi 2012 ac 85% erbyn mis Medi 2014. Ar hyn o bryd, fy nealltwriaeth i gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yw bod cryn dipyn o waith eisoes wedi'i wneud ar y cynlluniau hyn.

Mae gwella safonau ysgolion yn elfen hollbwysig o'n Rhaglen Lywodraethu a gwn y byddwch yn rhannu ein huchelgais o weld gwelliannau buan a chynaliadwy yn addysg ein plant. Hoffwn eich atgoffa bod gan Weinidogion Cymru bwerau o dan Atodlen 7 i Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 i roi cyfarwyddyd i awdurdodau lleol wneud cynigion ar gyfer ad-drefnu ysgolion lle bo'r ddarpariaeth ar gyfer addysg gynradd neu addysg uwchradd mewn ysgolion a gynhelir, yn eu barn nhw, naill ai'n ormodol neu'n annigonol. O ystyried mai prin iawn a wnaed hyd yma i fynd i'r afael â'r materion a nodir uchod, rwyf wrthi'n ystyried a ddylwn arfer y pwerau hyn, naill ai'n fuan neu yn 2015, ac a fydd cosbau eraill yn berthnasol os na fydd awdurdodau lleol yn cyrraedd y targedau a bennwyd yn y datganiadau a gyflwynwyd ganddynt.

Byddaf yn defnyddio'r datganiadau y gofynnwyd amdanynt uchod wrth ddod i benderfyniad.

I gloi, byddwn yn ddiolchgar pe gallech fynd ati'n bersonol i adolygu'n ddi-oed gyda'ch Cyfarwyddwr Addysg rôl a chyfrifoldebau'r Gwasanaeth Addysg yn eich awdurdod mewn perthynas â diogelu plant gan gymryd gofal arbennig i sicrhau bod yr holl weithdrefnau gorfodol yn cael eu rhoi ar waith yn effeithiol.

Edrychaf ymlaen at weithio gyda chi yn y blynyddoedd i ddod ac rwy'n ffyddiog y gallwn, o weithio gyda'n gilydd, wella safonau a chynnig y dechrau gorau mewn bywyd i holl blant Cymru.

Yn gywir,

**Leighton Andrews AC / AM**
Y Gweinidog Addysg a Sgiliau
Minister for Education and Skills

## Ll12-05-18(10945)(c)(Primary data)

## Data Awdurdodau Lleol - Ysgolion Cynradd

| Y sefylfa ym mis Ionawr 2011 | | | | | Amcanestyniadau Disgyblion ar gyfer 2012-2016 ym mis Ionawr | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Awdurdod Lleol | Cyfanswm nifer yr ysgolion | Cyfanswm capasiti'r ysgolion (a) | Nifer y lleoedd heb eu llenwi (b) | Canran cyfanswm y capasiti sydd heb ei lenwi | Y niferoedd yn 2011 ar y cofrestri - ffigurau gwirioneddol (c) | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | Y duedd ar gyfer 2011-2016 | % yr amrywiant | Nifer y lleoedd heb eu llenwi 2016 | Canran cyfanswm y capasiti a fyddai heb ei lenwi yn 2016 |
| Ynys Môn | 50 | 6,516 | 1,802 | 27.7 | 4,737 | 4,747 | 4,809 | 4,809 | 4,853 | 4,895 | 158 | 3.3 | 1,621 | 24.9% |
| Blaenau Gwent | 27 | 6,873 | 1,834 | 26.7 | 5,081 | 5,084 | 5,317 | 5,479 | 5,671 | 5,713 | 632 | 12.4 | 1,160 | 16.9% |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 52 | 12,085 | 1,949 | 16.1 | 10,197 | 10,497 | 10,583 | 10,902 | 11,191 | 11,413 | 1,216 | 11.9 | 672 | 5.6% |
| Caerffili | 75 | 17,826 | 3,812 | 21.4 | 13,929 | 14,057 | 14,340 | 14,652 | 14,901 | 14,981 | 1,052 | 7.6 | 2,845 | 16.0% |
| Caerdydd | 101 | 29,261 | 4,901 | 16.7 | 24,807 | 25,242 | 25,636 | 26,123 | 26,407 | 26,726 | 1,919 | 7.7 | 2,535 | 8.7% |
| Sir Gaerfyrddin | 112 | 18,057 | 4,824 | 26.7 | 13,385 | 13,343 | 13,332 | 13,325 | 13,344 | 13,365 | -20 | -0.1 | 4,692 | 26.0% |
| Ceredigion | 61 | 6,451 | 1,678 | 26.0 | 4,816 | 4,873 | 4,864 | 4,953 | 5,004 | 5,059 | 243 | 5.0 | 1,392 | 21.6% |
| Conwy | 61 | 9,325 | 1,891 | 20.3 | 7,520 | 7,460 | 7,430 | 7,492 | 7,537 | 7,575 | 55 | 0.7 | 1,750 | 18.8% |
| Sir Ddinbych nodyn 2 | 52 | 8,612 | 1,634 | 19.0 | 7,090 | 7,136 | 7,103 | 7,171 | 7,171 | 7,171 | 81 | 1.1 | 1,441 | 16.7% |
| Sir y Fflint | 74 | 13,995 | 2,529 | 18.1 | 11,457 | 11,649 | 11,786 | 11,893 | 12,065 | 12,072 | 615 | 5.4 | 1,923 | 13.7% |
| Gwynedd nodyn 3 | 103 | 11,546 | 3,065 | 26.5 | 8,556 | 8,512 | 8,482 | 8,499 | 8,499 | 8,499 | -57 | -0.7 | 3,047 | 26.4% |
| Merthyr Tudful | 24 | 4,949 | 570 | 11.5 | 4,379 | 4,388 | 4,474 | 4,545 | 4,548 | 4,553 | 174 | 4.0 | 396 | 8.0% |
| Sir Fynwy | 32 | 7,397 | 1,229 | 16.6 | 6,180 | 6,133 | 6,229 | 6,340 | 6,318 | 6,280 | 100 | 1.6 | 1,117 | 15.1% |
| Castell-nedd Port Talb | 71 | 13,573 | 3,700 | 27.3 | 9,900 | 9,895 | 9,978 | 10,112 | 10,240 | 10,307 | 407 | 4.1 | 3,266 | 24.1% |
| Casnewydd | 48 | 13,613 | 2,134 | 15.7 | 11,523 | 11,569 | 11,872 | 12,068 | 12,356 | 12,582 | 1,059 | 9.2 | 1,031 | 7.6% |
| Sir Benfro | 61 | 10,546 | 1,379 | 13.1 | 9,195 | 9,190 | 9,308 | 9,464 | 9,534 | 9,602 | 406 | 4.4 | 945 | 9.0% |
| Powys | 101 | 12,040 | 2,876 | 23.9 | 9,197 | 9,242 | 9,259 | 9,316 | 9,399 | 9,432 | 235 | 2.6 | 2,608 | 21.7% |
| Rhondda Cynon Taf | 114 | 24,670 | 6,916 | 28.0 | 18,066 | 17,892 | 18,220 | 18,665 | 18,756 | 18,987 | 921 | 5.1 | 5,683 | 23.0% |
| Abertawe | 84 | 20,723 | 3,804 | 18.4 | 17,091 | 17,196 | 17,362 | 17,618 | 17,807 | 17,972 | 881 | 5.2 | 2,751 | 13.3% |
| Torfaen | 30 | 8,575 | 1,666 | 19.4 | 6,937 | 7,100 | 7,141 | 7,306 | 7,572 | 7,723 | 786 | 11.3 | 852 | 9.9% |
| Bro Morgannwg | 46 | 11,906 | 2,027 | 17.0 | 10,028 | 10,060 | 10,194 | 10,348 | 10,402 | 10,504 | 476 | 4.7 | 1,402 | 11.8% |
| Wrecsam | 60 | 11,569 | 1,638 | 14.2 | 10,205 | 10,321 | 10,380 | 10,531 | 10,641 | 10,710 | 505 | 4.9 | 859 | 7.4% |
| Cymru | 1,439 | 280,108 | 57,858 | 20.7 | 224,276 | 225,585 | 228,099 | 231,611 | 234,216 | 236,121 | 11,845 | 5.28 | 43,987 | 15.7% |
| | | | | | Y gwahaniaeth blynyddol | 1,309 | 2,513 | 3,512 | 2,605 | 1,905 | | | | |

**Nodiadau**

1. Gan nad yw'r tabl hwn yn rhoi ystyriaeth i achosion lle bo mwy o alw na nifer y lleoedd sydd ar gael, ni fydd (c) bob amser yn cyfateb i (a) - (b).
2. Ni chafwyd amcanestyniadau ar gyfer y cyfnod yn llawn gan Sir Ddinbych - cariwyd ymlaen werth cyson ar gyfer y blynyddoedd coll.
3. Ni chafwyd amcanestyniadau ar gyfer y cyfnod yn llawn gan Wynedd - cariwyd ymlaen werth cyson ar gyfer y blynyddoedd coll.

# Ll12-05-18(10945)(d)(Secondary data)

## Data Awdurdodau Lleol - Ysgolion Uwchradd

| Awdurdod Lleol | Y sefylfa ym mis Ionawr 2011: Cyfanswm nifer yr ysgolion | Cyfanswm capasiti'r ysgolion (a) | Nifer y lleoedd heb eu llenwi (b) | Canran cyfanswm y capasiti sydd heb ei lenwi | Y niferoedd yn 2011 ar y cofrestri - ffigurau gwirioneddol (c) | Amcanestyniadau Disgyblion ar gyfer 2012-2016 ym mis Ionawr: 2012 | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | Y duedd ar gyfer 2011-2016 | % yr amrywiant | Nifer y lleoedd heb eu llenwi 2016 | Canran cyfanswm y capasiti a fyddai heb ei lenwi yn 2016 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 5 | 5,462 | 1,254 | 23.0 | 4,207 | 4,274 | 4,133 | 4,088 | 3,931 | 3,919 | -288 | -7 | 1,543 | 28.2% |
| Blaenau Gwent | 5 | 4,812 | 664 | 13.8 | 4,154 | 4,010 | 3,857 | 3,855 | 3,705 | 3,598 | -556 | -13 | 1,214 | 25.2% |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 10 | 11,789 | 2,124 | 18.0 | 9,665 | 9,711 | 9,724 | 9,576 | 9,469 | 9,293 | -372 | -4 | 2,496 | 21.2% |
| Caerffili | 14 | 14,700 | 2,455 | 16.7 | 12,260 | 12,236 | 12,075 | 11,864 | 11,878 | 11,841 | -419 | -3 | 2,859 | 19.4% |
| Caerdydd nodyn 2 | 20 | 24,908 | 4,456 | 17.9 | 20,686 | 20,297 | 19,915 | 19,574 | 19,331 | 19,263 | -1,423 | -7 | 5,645 | 22.7% |
| Sir Gaerfyrddin | 14 | 13,154 | 1,442 | 11.0 | 12,068 | 11,878 | 11,664 | 11,411 | 11,227 | 11,095 | -973 | -8 | 2,059 | 15.7% |
| Ceredigion | 7 | 6,353 | 1,627 | 25.6 | 4,726 | 4,639 | 4,577 | 4,504 | 4,482 | 4,463 | -263 | -6 | 1,890 | 29.8% |
| Conwy | 7 | 8,696 | 1,453 | 16.7 | 7,243 | 7,224 | 7,163 | 7,097 | 6,979 | 6,903 | -340 | -5 | 1,793 | 20.6% |
| Sir Ddinbych nodyn 3 | 8 | 8,465 | 1,032 | 12.2 | 7,458 | 7,295 | 7,306 | 7,211 | 7,076 | 7,025 | -433 | -6 | 1,440 | 17.0% |
| Sir y Fflint nodyn 4 | 12 | 11,750 | 1,497 | 12.7 | 10,311 | 10,162 | 9,969 | 9,787 | 9,586 | 9,575 | -736 | -7 | 2,175 | 18.5% |
| Gwynedd note 5 | 14 | 10,823 | 3,326 | 30.7 | 7,497 | 7,454 | 7,405 | 7,231 | 7,231 | 7,231 | -266 | -4 | 3,592 | 33.2% |
| Merthyr Tudful | 4 | 5,053 | 1,174 | 23.2 | 3,879 | 3,855 | 3,762 | 3,665 | 3,621 | 3,589 | -290 | -7 | 1,464 | 29.0% |
| Sir Fynwy | 4 | 6,068 | 915 | 15.1 | 5,153 | 5,118 | 4,998 | 4,949 | 4,963 | 5,000 | -153 | -3 | 1,068 | 17.6% |
| Castell-nedd Port Tal | 11 | 11,233 | 2,827 | 25.2 | 8,406 | 8,291 | 7,957 | 7,672 | 7,377 | 7,260 | -1,146 | -14 | 3,973 | 35.4% |
| Casnewydd | 8 | 10,454 | 650 | 6.2 | 10,440 | 10,286 | 10,068 | 9,959 | 9,864 | 9,750 | -690 | -7 | 704 | 6.7% |
| Sir Benfro | 8 | 9,251 | 1,283 | 13.9 | 8,182 | 7,899 | 7,722 | 7,501 | 7,308 | 7,117 | -1,065 | -13 | 2,134 | 23.1% |
| Powys | 13 | 10,652 | 1,944 | 18.3 | 8,766 | 8,588 | 8,417 | 8,176 | 8,009 | 7,825 | -941 | -11 | 2,827 | 26.5% |
| Rhondda Cynon Taf | 19 | 21,881 | 4,205 | 19.2 | 17,884 | 17,111 | 16,855 | 16,549 | 16,522 | 16,364 | -1,520 | -8 | 5,517 | 25.2% |
| Abertawe | 15 | 16,181 | 2,299 | 14.2 | 14,036 | 13,888 | 13,710 | 13,479 | 13,344 | 13,297 | -739 | -5 | 2,884 | 17.8% |
| Torfaen | 7 | 8,701 | 953 | 11.0 | 7,837 | 7,657 | 7,513 | 7,275 | 7,076 | 6,938 | -899 | -11 | 1,763 | 20.3% |
| Bro Morgannwg | 8 | 10,485 | 1,001 | 9.5 | 9,823 | 9,733 | 9,495 | 9,242 | 9,143 | 9,008 | -815 | -8 | 1,477 | 14.1% |
| Wrecsam | 9 | 8,460 | 1,907 | 22.5 | 6,548 | 6,589 | 6,506 | 6,442 | 6,426 | 6,439 | -109 | -2 | 2,021 | 23.9% |
| Cymru | 222 | 239,331 | 40,488 | 16.9 | 201,229 | 198,196 | 194,793 | 191,108 | 188,549 | 186,793 | -14436 | -7.2 | 52,538 | 22.0% |
| | | | | | Y gwahaniaeth blynyddol | -3,033 | -3,402 | -3,685 | -2,559 | -1,756 | | | | |

**Nodiadau**

1. Gan nad yw'r tabl hwn yn rhoi ystyriaeth i achosion lle bo mwy o alw na nifer y lleoedd sydd ar gael, ni fydd (c) bob amser yn cyfateb i (a) - (b).
2. Nid oedd yr amcanestyniadau ar gyfer disgyblion yng Nghaerdydd yn cynnwys myfyrwyr chweched dosbarth - roedd cyfanswm o 3,216 o ddisgyblion yn y chweched dosbarth ym mis Ionawr 2011. Gwnaed y dybiaeth y byddai 3,200 yn mynychu pob un
3. Mae'n bosibl y bydd yr amcanestyniadau ar gyfer Sir Ddinbych yn newid.
4. Mae Sir y Fflint wedi cynnwys niferoedd disgyblion mewn unedau AAA yn rhan o'i hamcanestyniadau.
5. Ni chafwyd amcanestyniadau ar gyfer y cyfnod yn llawn gan Wynedd - cariwyd ymlaen werth cyson ar gyfer y blynyddoedd coll.